# Pam fod coed yn bwysig?

| | |
|---|---|
| **Cyfnod allweddol/Grŵp oed** | **CA2/3** |
| **Hyd y gweithgaredd** | **15 - 30 munud** |
| **Lleoliad** | **Y tu mewn neu'r tu allan** |

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd yma'n tanlinellu pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar goed a choedwigoedd, a'r buddion y maent yn eu cynnig.

Amcan Cyfoeth Naturiol Cymru yw gweithredu'r rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ym mhob agwedd o'u gwaith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion, a phridd er mwyn gwella lles Cymru ac er mwyn cynnig dyfodol gwell i bawb.

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

| | ADCDF - Amgylchedd naturiol | Daearyddiaeth | ABCh | |
|---|---|---|---|---|
| **CA2** | • Mae pobl yn dibynnu ar yr amgylchedd am fwyd, ynni, ac am ddeunyddiau ac adnoddau eraill | • Arsylwi a gofyn cwestiynau am safle, amgylchedd, neu destun daearyddol<br>• Byw yn fy myd: gofalu am amgylcheddau a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd eang | • Gwerthfawrogi natur fel ffynhonnell ysbrydoliaeth | **Sylwer y bydd y gweithgaredd hwn hefyd yn eich helpu i gyflawni agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a Chymwyseddau Digidol** |
| **CA3** | • Sut mae gweithgareddau dynol yn newid amgylcheddau lleol a rhai byd-eang | • Datblygu barn a deall bod gan bobl ddaliadau ac agweddau gwahanol o ran materion daearyddol | • Defnyddio'u dealltwriaeth i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Deall pynciau amserol lleol a byd eang | |

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd dylai'r disgyblion allu:**

- cynnig ac egluro rhai rhesymau pam fod coed yn bwysig
- disgrifio pa reswm sydd bwysicaf iddyn nhw
- deall fod coed yn cynnig sawl budd gwahanol i bobl ac i'r amgylchedd

## Offer ac adnoddau

- **Cardiau adnoddau - Pam fod coed yn bwysig?**

## Cyfarwyddiadau

Gellir addasu a chwblhau'r gweithgaredd mewn sawl ffordd wahanol (gweler 1-3). Mae modd hefyd ei ddefnyddio i gadarnhau'r hyn sydd wedi'i ddysgu'n barod o ran coed, newid hinsawdd, a chynaladwyedd.

Gofynnwch i'r grŵp esbonio pam fod coed yn bwysig, a thrafodwch eu syniadau.

1. Yn annibynnol, neu mewn grwpiau bychain, rhannwch y cardiau adnoddau a gofynnwch i'r disgyblion eu trefnu o ran buddion mwyaf pwysig pam fod coed yn bwysig i'r buddion lleiaf pwysig. Trafodwch y canlyniadau.
2. Gyda grwpiau mwy, rhowch gerdyn i bob disgybl. Gofynnwch i'r disgyblion trefnu eu hunain o'r budd lleiaf pwysig i'r budd mwyaf pwysig, yn eu barn nhw. Cymharwch a thrafodwch y gwahaniaethau a'r hyn sy'n debyg ymysg y grwpiau.
3. Gall y disgyblion weithio mewn parau neu mewn grwpiau bychain i drefnu naw cerdyn adnodd gan ddefnyddio diemwnt. Gofynnwch i bob grŵp osod eu cardiau ar ffurf diemwnt, gyda'r cerdyn pwysicaf ar y brig, dau gerdyn yn yr ail reng, tri cherdyn yn y drydedd reng (pwysigrwydd canolig), dau gerdyn yn y bedwaredd reng, a'r cerdyn lleiaf pwysig ar y gwaelod. Bydd angen iddynt benderfynu ar y drefn yn eu grwpiau, gan symud y cardiau nes y byddent oll yn gytûn.

## Trafodaeth ddosbarth

Esboniwch nad oes atebion cywir neu anghywir. Bwriad y gweithgaredd yw hybu trafodaeth, ac i addysgu'r disgyblion am yr holl ffyrdd y mae pobl a'r amgylchedd yn buddio gan goed.

## Cwestiynau allweddol

- **Pa fudd sydd bwysicaf yn eich barn chi?**
- **Sut gallwn ni gynyddu niferoedd coed yn lleol?**
- **Sut caiff pren ei ddefnyddio yn yr ysgol?**

## Addasu ar gyfer galluoedd/anghenion gwahanol

### Llai abl

- Tynnwch rai cardiau o'r set.

### Mwy abl

- Ceisiwch ganfod rhagor o fuddion a'u hychwanegu i'r set.
- Cwblhau'r gweithgaredd fel grŵp llawn.

## Gweithgaredd dilynol/estynedig

- Crëwch dablau a graffiau i ddangos sut trefnwyd y cardiau, e.e. siart bar dynol: gosodwch y cardiau ar y llawr, a gofyn i'r plant sefyll mewn rhes o flaen eu cardiau dewisol, gan ffurfio 'bariau' y graff.
- Defnyddiwch gelf naturiol i ddarlunio un o'r ffyrdd y mae coed yn bwysig.

Rhowch gynnig ar un o'n gweithgareddau rheoli coedwigoedd eraill:

- Cynllun gweithgaredd - Gwasgaru hadau
- Cynllun gweithgaredd - Cyfrifydd carbon
- Cynllun gweithgaredd - Sut mae coed yn gweithio

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government